CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**25.02.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; TAJ; RJ; EO<br>**Ymddiheuriadau:** IW; DP; AR; BJ; GW; JOJ; DL;<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng. JG |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd TAJ ddiddordeb yn Eitem 3b) Materion yn Codi sef y drafodaeth am gefnogaeth ariannol i'r Ysgol Gynradd gan ei fod yn Llywodraethwr.<br>Datganodd JG ddiddordeb yn Eitem 7: Materion Cynllunio |
| 3 | **Cofnodion 21.02.21**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 21 Ionawr 2021 fel rhai cywir (TAJ/EO)<br>b) Materion yn codi<br>**Croesfan Ddiogel**<br>Adroddodd y Clerc bod CSYM am osod croesfan ger tafarn y Bull i wella Llwybr Diogel i'r Ysgol. Nodwyd nad oedd safle addas ger Twrcelyn (lle oedd y Groeswraig wedi ei lleoli) ar gyfer croesfan gan fod y ffordd a'r pafin yn rhy gul. Cofnodwyd gwerthfawrogiad y Pwyllgor i CSYM am weithredu hyn. Cytunwyd i holi CSYM am ffyrdd o ddefnyddio'r Rhybudd ger Garej Twrcelyn (roedd gan y Groeswraig ffob ar ei gyfer) ac i holi am drwsio/ail osod y Camerâu Fflachio ger Cae Gofeb. Nodwyd bod y ffordd ger yr Ysgol wedi ei chlustnodi ar gyfer gweithredu 20 m.y.a. yng nghynlluniau CSYM ar gyfer yr Ynys gyfan.<br>**Rhodd Ariannol i'r Ysgol Gynradd i gefnogi sefyllfa COVID 19**<br>Cyfeiriodd y Clerc at e-bost gan y Pennaeth, a gylchredwyd eisoes, yn nodi byddai gosod Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol yn ased amhrisiadwy i weithio'n rhithiol gyda'r plant. Roedd e-bost gan yr Awdurdod Addysg yn amlinellu mwy nag un opsiwn i ariannu hyn. Cytunwyd yn unfrydol i Gronfa Ysgol Haearn |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | gyfrannu £1000 a Cyngor Cymdeithas gyfrannu £900 er mwyn gwireddu'r Opsiwn mwyaf cost effeithiol. Clerc i hysbysu Mrs Wyn.<br><br>**Tori Mynwent Carmel**<br><br>Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu â Mrs Eirlys Jones Ysgrifennydd y Capel i nodi bwriad y Cyngor Cymdeithas i dalu am dorri mynwent Capel Carmel. Derbyniwyd lythyr gan Mrs Jones yn cadarnhau mai £250 dalwyd i ddeiliad Tŷ Capel am dorri'r Fynwent dros gyfnod 2020. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi anfon ad-daliad i Capel Carmel ac wedi gofyn i Mrs Jones sicrhau bod CC Llan yn derbyn infois am y gwaith yn uniongyrchol o hyn ymalen. Cytunodd Mrs Jones i weithredu hyn ac i adael i'r Clerc wybod yn syth os bydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol yn y dyfodol.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 25.02.21 |
| **4** | **Rheolaeth**<br><br>➢ **Sedd Wag**<br><br>Doedd dim enwebiadau i law. Cytunwyd i'r aelodau wneud ymholiadau eto o fewn y gymuned - eitem ymlaen i gyfarfod mis Mawrth. |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**TAJ -** cyflwynodd gais i osod mainc ger y safle bws yn y sgwâr. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach o ran gosod ac ariannu a thrafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mawrth.<br><br>**RJ –** adroddodd bod cyflwr y to ar George Bach yn berygl – llechi rhydd. Cytunodd JG i gysylltu ag Adran Rheolaethau Adeiladu CSYM yn y bore.<br><br>- tyllau drwg ger y 'manhole' wrth Pen Parc – Clerc i adrodd i CSYM<br>- Lon Chwaen Bach, Parc Newydd heibio Ffridd a Pennant mewn cyflwr drwg iawn - Clerc i adrodd<br>- Golwg yn Fynwent y Santes Fair - llechi a thyllau - Clerc i gysylltu â Parch Kevin Ellis.<br><br>**DAW -** cyfeiriodd at y llanast tu allan i Siop Annie - bagiau o eiddo ail-law yn cael eu gadael ar y pafin a'r siop ar gau. Nododd y Clerc bod Swyddog Gwastraff CSYM wedi cysylltu yn nodi ei bod yn gweithio gyda'r perchennog i ddatrys y broblem a bod cwmni Biffa wedi clirio rhai bagiau eisoes.<br><br>- wedi derbyn cwyn am eiddo yn stad Cae'r Delyn - llawer o sbwriel o flaen y tŷ yn hudo llygod. Nododd y Clerc bod BJ wedi cysylltu ar e-bost i son eto am broblem sbwriel yn Stryd Twrcelyn Clerc i gysylltu â Swyddog Gwastraff CSYM i adrodd am y ddau safle. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | - Cyfeiriodd at osod bagiau baw ci ar bolion drwy'r pentref. Cytunwyd i DW a'r Clerc fwrw mlaen gydag archebu a gosod.<br>- Cyferiodd at gyflwr y llwybrau yn y Fynwent Gyhoeddus. Cytunwyd i Clerc atgoffa RPO Williams am y gwaith gytunwyd eisoes ac i holi Rhys Williams am ddulliau o wared a'r mwsog.<br>- Adroddodd ar broblem yn Caffi Stesion gyda nwy yn gollwng. Dywedodd bod swyddog o Nwy Prydain wedi dod allan ac yn nodi nad oedd nwy yn y tanc. Trefnwyd bod Carolyn yn cysylltu â'r cyflenwr i wirio'r sefyllfa ac adrodd yn ôl i'r Clerc. Cytunwyd peidio talu costau galw allan Nwy Prydain o ganlyniad i agwedd y swyddog.<br><br>**JAJ -** holodd am weindio'r cloc. Nododd DW ei fod yn anodd ar hyn o bryd i GW/DW wneud y gwaith weindio. Cytunwyd i edrych mewn i ffyrdd amgen ac adrodd i gyfarfod mis Mawrth .<br><br>- cyfeiriodd at gostau/cyflog y Clerc. Cytunwyd eisoes bod angen adolygu cyflog y Clerc yn flynyddol ond adodd wŷd na wnaethpwyd hyn yn 2020. Hefyd cyfeiriodd at gostau blynyddol y Clerc ar gyfer trydan; papur; inc; stampiau ayyb. Adroddodd y Clerc ei bod yn derbyn £450 pob diwedd mis Mawrth ac nad oedd hyn edi ei adolygu ers 2009. Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc ddod a manylion pellach i gyfarfod mis Mawrth - gan gynnwys prisio gliniadur a thaflunydd a gwirio ei chyfrifiadur cyfredol.<br>- Cyfeiriodd at ddiffyg gwelededd wrth ddod i'r ffordd fawr o gyfeiriad Parc gan fod gwrychyn yr eiddo gerllaw wedi gordyfu. Cytunwyd i'r clerc ddwyn hyn i sylw swyddog Gwaith Stryd CSYM. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Gwariant ers cyfarfod Ionawr:**<br>Scottish Power **–** trydan CPD - £120.90 a Goleuadau Dolig £36.74<br>Carolyn Owen Caffi Stesion - £510 prydau bwyd Dolig (Arian Grant Covid 19)<br>Taliad i Capel Carmel MC am dorri mynwent 2020/21 - £250<br>Taliad gwirfoddolwr Covid 19 - £60 (arian grant Covid 19)<br><br>**Biliau cyfredol**: dim i law<br><br>Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol gyfredol. .<br>Cytunwyd i gynnal Is-Bwyllgor Cyllid cyn diwedd mis Mawrth a phan yn gyfleus i Mr Eryl Williams.<br>Cytunwyd i gadw aelodaeth yr Is Bwyllgorau fel ag y maent |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| 7. | **Materion Cynllunio**<br><br>**Cais FPL/2020/48 Ty'n Felin Llannerchymedd** – cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais. |
| 8 | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>• **Cais Mr Alan Kennet**<br><br>Dosbarthwyd cynlluniau gan Mr Kennett i blannu blodau gwyllt yn ardal Cae Gofeb. Cytunwyd i gefnogi'r cais gan ddiolch i Mr Kennet am ei ddiddordeb a'i frwdfrydedd. Cytunwyd hefyd i'r Clerc holi a thrafod ymhellach unrhyw oblygiadau ariannol a chadarnhau hyn gyda Mr Kennet cyn dechrau'r gwaith.<br><br>• **Sefyllfa COVID 19 ar Ynys Môn**<br><br>Cyfeiriodd JG at sefyllfa gyfredol ddifrifol COVID 19 ar yr Ynys gyda 114 achos ym mhob 100,000 o boblogaeth sef yr uchaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Erfyniodd ar i bawb ledaenu'r neges i fod yn ofalus er mwyn sicrhau diogelwch pawb drwy gadw at y canllawiau statudol.<br><br>• **Repair Café Wales**<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at drafodaeth gychwynnol rhwng y sefydliad uchod a Grŵp LlanNi.<br><br>Bwriad y sefydliad i'w rhoi cymorth i grwpiau cymunedol sefydlu sesiynau trwsio amrywiol yn y Gymuned. Mae'n fwriad gan Grŵp LlanNi i ymgeisio am grantiau i osod Sied Gymunedol ar safle'r Stesion - sydd wedi ei gefnogi mewn egwyddor gan CC Llan eisoes. Bydd hyn yn broses gymharol hir yn arbennig yng ngoleuni sefyllfa COVID presennol. O ganlyniad, y syniad cychwynnol yw defnyddio ardal sydd mewn bodolaeth eisoes fel stafell gyfarfod ar safle Stesion neu stafell gymunedol Tan y Foel. Addawodd y Clerc gylchredeg gwybodaeth am Café Repair Wales at yr aelodau er gwybodaeth. Cytunwyd i'r Clerc holi Carolyn Owen am ei barn hi cyn cymeradwyo unrhyw gais pellach.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383